# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Kevin Griffiths | **Adran Etholiadol:** | Pontarddulais |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | dd/b |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi ymdrin â nifer o faterion a godwyd yn y gymuned, roedd rhai o'r materion hyn yn ymwneud â'r canlynol

1. Virgin Media
2. Addasiadau tai
3. Materion CDLl lleol, ar cyd phreswylwyr eraill
4. Goleuadau stryd ar Tidal Reach
5. Llinellau melyn
6. Safle bws ar Heol Bolgoed
7. Tipio anghyfreithlon ledled y gymuned
8. Roeddwn i'n cynorthwyo gyda'n cyllid cymunedol ar gyfer prosiectau amrywiol yn ein cymuned

Lawnt fowlio, clybiau ieuenctid, pobl anabl.

Rwyf wedi ceisio bod yn actif o gwmpas y gymuned, gan siarad â phreswylwyr ac yn ymdrin â'r cwynion sydd ganddynt.

Rwyf wedi bod yn rhan o bwyllgorau amrywiol, gan helpu i gydnabod a dathlu rhai o'n digwyddiadau hanesyddol o'r gorffennol.

Mae rhai o'r pwyllgorau rwy'n gwasanaethu arnynt yn cynnwys y canlynol. Pwyllgor Coffa Graig Merthyr, Pwyllgor Coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Rwyf wedi bod yn gadeirydd Cynllun Ceir Cymunedol Pontarddulais ers rhai blynyddoedd, gan helpu i godi arian i adnewyddu cerbydau ar gyfer pobl anabl a'u cynnal i'r safonau angenrheidiol i gynorthwyo'r henoed yn y gymuned.

Fel cynghorydd cymuned, rwyf wedi bod yn cynrychioli'r gymuned yng ngrŵp cyswllt Mynydd y Gwair ac yn cynrychioli'n cymuned fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Iau Pontarddulais.
Rwyf hefyd wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer y ward cemotherapi yn Ysbyty Singleton i alluogi pobl o'n cymuned a'r cyffiniau i gael y cysur maent yn ei haeddu pan fyddant yn profi cyfnodau trawmatig. Rydym wedi codi dros £8,000 gyda chymorth gan deuluoedd, ffrindiau a chydweithwyr i brynu cadeiriau triniaeth a blancedi gwres.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

Mae bod yn gynghorydd sir yn un o'r pethau pwysicaf rwyf erioed wedi bod yn falch o'i wneud.
Mae mynd i gyfarfodydd y cyngor yn fy helpu i ddysgu ac yn fy ngalluogi i gwblhau rhai o'r tasgau y mae angen i mi ymgymryd â nhw, er nad wyf wedi bod yn bresennol 100% o'r amser oherwydd salwch.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Mae rhan o'm rôl fel cynghorydd yn cynnwys cynnal cymhorthfa bob trydydd nos Lun y mis yng Nghanolfan y Bont rhwng 5pm a 7pm ym Mhontarddulais ac rwy'n gyfrifol am unrhyw faterion a godir yn y gymuned ac yn mynd â nhw i'r cyngor i geisio eu datrys.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi hysbysu preswylwyr lleol am ddatblygiadau sy'n arwyddocaol i'r sir a'r gymuned.
Rwyf wedi datblygu fy nhudalen fy hun ar Facebook, 'Pontarddulais community updates' lle rydym yn ceisio hysbysu pawb am yr hyn sy'n bwysig iddynt.
Rwy'n defnyddio fy nhudalen bersonol fy hun hefyd.
Rwyf wedi llunio a chyhoeddi dau gylchlythyr rwyf am barhau i'w cyhoeddi.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn ceisio dod o hyd i gyllid ar gyfer maes 3G ac un o'm huchelgeisiau yw cwblhau hwn.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 04/10/2018 |